

Chwarae a Chredu: lansio adnoddau Godly Play yn Gymraeg

Nos Fercher, 26 Hydref, yn y gadeirlan ym Mangor lansiwyd cynllun dysgu ac addoli newydd ar gyfer plant a theuluoedd. Addasiad gan Dr Cass Meurig o rai o adnoddau'r cynllun poblogaidd *Godly Play* yw *Chwarae a Chredu*. Daeth criw ynghyd o eglwysi gwahanol ar draws gogledd Cymru, a braf hefyd oedd croesawu Andrew Sheldon o Toronto yng Nghanaada, cyfarwyddwr y Godly Play Foundation sy'n goruchwylio'r gwaith ledled y byd.

Mae Dr Cass Meurig wedi bod wrthi ers rhai blynedd yn cyfieithu adnoddau *Godly Play* i'r Gymraeg, a bellach cyhoeddwyd detholiad o bedwar o lyfrau'r gyfres gan Gyhoeddiadau'r Gair. Bu Aled Davies yn holi'r cyfieithydd Cass Meurig, sydd hefyd yn un o hyfforddwyr y cynllun yng Nghymru, am y gwaith.

Beth felly yw *Godly Play*?

Datblygwyd *Godly Play* gan Jerome Berryman yn Efrog Newydd dros 30 mlynedd yn ôl, ac mae bellach wedi ei gyfieithu i tua 15 o ieithoedd ac yn cael ei ddefnyddio mewn tua 60 o wledydd ledled y byd.



Cass yn arwain sesiwn Chwarae a Chredu yn y gadeirlan

Dull o feithrin plant yn y ffydd Gristnogol yw *Chwarae a Chredu*, neu *Godly Play*. Mae wedi'i anelu at blant 3–11 oed, ac mae'n defnyddio'r cyfrwng mwyaf naturiol iddyn nhw i dyfu yn eu ffydd, sef chwarae. Drwy storïau a symbolau, mae *Chwarae a Chredu* yn cynnig lle i blant brofi presenoldeb Duw, dysgu storïau'r Beibl a dod i ddeall a chredu'r ffydd Gristnogol. Mae *Chwarae a Chredu* yn seiliedig ar ymchwil maith ar sut mae plant yn dod i'r ffydd – ac mae'n gweithio! Daeth fy mhlant fy hun i'r ffydd drwy *Chwarae a Chredu*.

Beth sy'n digwydd mewn sesiwn *Godly Play/Chwarae a Chredu*??

Mae sesiwn *Chwarae a Chredu* yn dechrau â'r plant yn eistedd mewn cylch gyda'r storiwr; mae hyn yn eu helpu nhw i dawelu a bod yn barod am y stori. Yna mae'r storiwr yn dweud stori o'r Beibl, gan ddefnyddio gwrthrychau a symbolau megis tywod, pobl bach pren a lluniau. Mae'r plant wrth eu boddau. Mae'r stori'n dod yn fyw yn y dull sy'n naturiol iddyn nhw.

Mae'r cwricwlwm *Chwarae a Chredu* yn cynnwys storïau sy'n adrodd 'stori fawr' yr Hen Destament a'r Testament Newydd, damhegion a gwersi sy'n eu helpu i ddeall arferion y ffydd (bedydd a'r cymun, er enghraifft). Mae yna storïau hefyd am gymeriadau mawr y Beibl – Dafydd, Daniel a'u tebyg – a rhai sy'n addas ar gyfer gwahanol dymhorau'r flwyddyn, fel y Nadolig, y Pasg, a'r Pentecost. Y nod yw

rhoi model mewnol o'r ffydd Gristnogol i'r plant ar gyfer gweddill eu hoes.


Ar ôl cael cyfle i wrando a gwyllo'r stori, mae yna amser 'myfyrio'. Mae gofyn cwestiynau agored yn helpu'r plant i gysylltu'n bersonol â'r naratif, e.e. Beth oeddech chi'n hoffi fwyaf yn y stori? Beth yw'r rhan fwyaf pwysig yn y stori? Lle ydych chi yn y stori?

Yn dilyn hyn mae amser rhydd ar gyfer chwarae, neu gelf a chreffft. Mae'r plant yn cael dewis stori o'r silffoedd a chwarae gyda hi, neu ymateb i'r stori mewn ffordd greadigol drwy gelf a chreffft. Nid ydym yn darparu deunydd parod; mae hon yn ffordd i'r plant brosesu'r stori yn eu ffordd eu hunain. Yna daw pawb yn ôl at y cylch ar gyfer gweddïau a'r 'wledd', sef bisgeden a diod fel arfer. Ac yna mae'n amser dweud 'ta-ta'!

Ble gellir defnyddio *Godly Play*?

Mi wnes i syrthio mewn cariad â'r dull *Godly Play* tua 12 mlynedd yn ôl ac ers hynny rwyf wedi ei ddefnyddio mewn llawer cyd-destun. Ar hyn o bryd rwyf yn ei ddefnyddio mewn clwb ar ôl ysgol yn Eglwys Crist, y Bala, mewn astudiaeth Feiblaidd i bob oed, ac mewn cartref gofal. Dw i wedi mynd ag ef i ysgolion i helpu gyda gwersi Addysg Grefyddol, a'i ddefnyddio hefyd ar gyfer sawl encil i oedolion. Er ei fod yn anelu at blant, mae hefyd yn apelio at bobl o bob oed. Mae

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)



Myfyriwr gap newydd Coleg y Bala
Tudalen 3

Sylw o'r Seidin
Yr Holl Saint
Tudalen 4

Gofod newydd i'r eglwys –
a'r gymuned!
Tudalen 5

Chwarae a Chredu: lansio adnoddau Godly Play yn Gymraeg

(parhad o dudalen 1)

Godly Play yn addas ar gyfer ysgol Sul, clwb ar ôl ysgol, ac astudiaethau Beiblaidd gyda phlant. Gellir defnyddio'r storïau hefyd yng nghyd-destun gwasanaethau pob oed, Llan Llanast a gwersi Addysg Grefyddol.

Ble mae modd cael gafael ar adnoddau Chwarae a Chredu a Godly Play?

Mae'r gyfrol Gymraeg ar gael o wefan [Cyngor yr Ysgolion Sul](http://CyngorYrYsgolionSul). Mae'n gydymaith i'r llyfrau Saesneg *The Complete Guide to*

Godly Play gan Jerome Berryman, ac yn cynnwys sgriptiau o gyfrolau 2, 3, 4 a 6. Maent ar gael ar ffurf copi caled neu fel fersiwn digidol.

Sut mae modd dysgu mwy am Godly Play?

Mae mwy o wybodaeth am *Godly Play* ar wefan Godly Play UK: <https://www.godlyplay.uk>

Os hoffech roi cynnig ar *Godly Play* yn Gymraeg, y peth gorau i'w wneud yw profi sesiwn eich hunain a gwahodd eraill i gael eu hysbrydoli. Cynhaliwyd prynhawn 'encil' yn Eglwys Crist, y Bala

yn ddiweddar i gynnig blas ar *Chwarae a Chredu*, a bydd mwy o ddyddiau blasu ar y gweill yn fuan.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â CassMeurigThomas@cinw.org.uk.

Os oes diddordeb gennych chi i gael eich hyfforddi yn y dull hwn, mae *Godly Play* UK yn cynnig cwrs tridiau yn ystod 13–15 Gorffennaf 2023 yn Llandudno. Gellir archebu lle yma: <https://www.godlyplay.uk/events/three-day-core-training-llandudno/>.

Dewch i chwarae!



Cass gyda Robin o Fethel



Criw yn cyfrannu at y gwaith celf



Andrew Sheldon, Aled Davies a Cass Meurig

Cystadleuaeth golff Cenn@d a'r Treasury 2022

Cynhaliwyd y gystadleuaeth golff flynyddol yn nyffryn Llangollen ar ddiwrnod cymylog a gwlyb. Yn dilyn paned o de a bap bacwn aeth wyth chwaraewr, o allu amrywiol, i chwarae ar gwrs golff hyfryd ond heriol. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn: enillydd Cwpan *Y Goleuad* i'r gweinidogion oedd y Parch. Neil Kirkham; Helen Wells enillodd Gwpan y Merched a Geraint Jones oedd enillydd cwpan y *Treasury*. Diolch yn fawr i Geraint am drefnu'r diwrnod. Bu lleihad yn nifer y cystadluwyr ers y llynedd, felly gall dyddiad y gystadleuaeth newid yn 2023 – cadwch lygad am y cyhoeddiad yn y flwyddyn newydd.



Cydymdeimlo

Gyda thristwch derbyniwyd neges am farwolaeth annisgwyl y Parch. Huw Jones, Llaneirwg, Caerdydd. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i deulu, yn arbennig ei weddw, y Parch. Janice Jones, sy'n gwasanaethu prosiect ecwmenaid Eglwys Gymunedol Pontprennau, a'r merched, Tirion a Seren. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwiorydd, Margaret, Gwenda, a Mair, sydd wedi gwasanaethu fel Warden Trefeca am nifer o flynyddoedd. Gobeithiwn fedru cynnwys coffâd iddo yn fuan.

Taith Cefnddwysarn

Wedi'r hirlwm a brofwyd gennym ni yng Nghefnddwysarn, fel pawb arall, rydym bellach, griw bychan ag ydym, wedi ailafael yn ein gwasanaethau a'n digwyddiadau. Ac un oedd y daith flynyddol – y tro hwn i'r Ysgwrn, Trawsfynydd, lle cawsom gyfle i fwynhau tangnefedd y wlad a brofai Hedd Wyn yn ei ieuenctid, cyn gorfod wynebu erchyllterau'r rhyfel a fu'n angau iddo. Cyfle i werthfawrogi'r heddwch sydd gennym ac i gofio am y trueiniaid y mae eu profiadau heddiw mor wahanol.



Myfyriwr gap newydd Coleg y Bala

Fy enw i yw Sion Gwyn Williams; rwyf yn 18 mlwydd oed. Dwi'n dod o deulu mawr gyda saith o blant, ac wedi fy magu yn Waunfawr, ger Caernarfon. Pan oeddwn yn blentyn, doedd dim rhaid i mi fynd i'r capel. Caem ddewis drosom ein hunain, a doedden ni ddim yn cael ein barnu. Yr unig adegau roeddwn yn mynd i'r capel oedd i'r oedfa Nadolig yng Nghapel Waunfawr.

Cychwynnais fynd i CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) pan oeddwn yn 12 mlwydd oed a dyna pryd wnaeth lesu gael gafael arnaf i. Cychwynnais ofyn cwestiynau fel 'Ydy hyn yn wir?' Ond roedd gen i ofn colli allan a meddwl beth fyddai fy ffrindiau'n ei ddweud, felly wnes i ddim dewis rhoi fy mywyd i lesu. Ymhellach ymlaen clywais am Goleg y Bala, a gan nad ydym yn deulu cyfoethog iawn, roedd dod i Goleg y Bala yn wyliau da, ac roeddwn wedi gwirioni gyda'r hwyl oedd yno. Hoffwn ddiolch yn ofnadwy am y gefnogaeth ariannol gan Fedyddwyr Arfon a wnaeth ganiatáu i mi allu dod i'r Coleg dros y blynyddoedd.

Wrth fynd i'r Coleg dair gwaith y flwyddyn ac i'm CIC lleol, dyma fi'n dysgu mwy am lesu. Dwi'n cofio un tro i un o'r siaradwyr (Rhys Hughes, cyn-fyfyriwr gap yn y Coleg) ddweud: 'Ydych chi'n barod i agor drws eich calon i lesu?' A dyna wnes i – yn 15 oed rhoddais fy mywyd i Grist am y tro cyntaf. Nid yw wedi bod yn siwrne hawdd, oherwydd ar adegau rwyf wedi pellhau oddi wrth Dduw. Ond mae'r adegau hynny wedi fy ngwneud yn gryfach oherwydd dwi'n profi haelioni Duw yn ddyfnach bob amser. Sylweddolais nad oeddwn yn haeddu'r fath drugaredd. Felly, wnes i edifarhau am y ffordd roeddwn i'n byw a stopio bod yn ddiog. Cychwynnais redeg lot, darllen y Beibl o ddfri a hefyd peidio ofni rhannu am y newyddion da a dewis rhoi popeth i lesu. Bywyd newydd.

Ond pam dod ar fy mlwyddyn gap i Goleg y Bala yn hytrach na mynd yn syth i goleg neu brifysgol? Fy ateb yw fy mod eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned wnaeth newid fy mywyd i. Fel teulu eithaf tlawd, doedd cael mynd dramor neu i gampio (neu glampio) ddim yn opsiwn. Felly, yr unig amser roeddwn yn teimlo fy mod yn cael gwyliau oedd pan oeddwn yn



dod i Goleg y Bala. Fy nymuniad ydi gallu helpu plant eraill sydd yn dod i redeg i ddwylo'r Arglwydd, fel yr helpodd staff Coleg y Bala fi pan oeddwn yn 15. Dwi'n gobeithio gallu adlewyrchu Crist i'r ieuenctid a'u helpu i gymryd y cam o ddilyn lesu.

Credaf hefyd fod y flwyddyn yma'n angenrheidiol i adeiladu ar y sgiliau rwyf am eu defnyddio yn y byd go iawn, megis magu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, gallu defnyddio arian yn dda, sgiliau byw a gallu gwarchod fy hun. Rwyf hefyd wedi dewis dod i Goleg y Bala oherwydd y lleoliad; mae'n ardal hyfryd a gyda chymuned braf, felly bydd blwyddyn yma yn ardderchog. Rheswm arall dros ddod i Goleg y Bala yw er mwyn adeiladu fy ffydd. Rwyf eisiau gadael y Coleg yn hollol hyderus ym mhob sefyllfa yn fy ffydd gan ddyfnhau fy ngwreiddiau yn lesu a bod yn siŵr y gallaf wynebu unrhyw beth gyda Duw. Felly, un nod allweddol yn y flwyddyn gap yw cofio mwy o'r ysgrythur. Dwi'n gweddio felly y bydd y flwyddyn gap yma'n galluogi fi i aeddfedu fel Cristion.

Wrth dreulio blwyddyn yng Ngholeg y Bala, rwy'n gobeithio elwa'n fawr iawn yn fy sgiliau dysgu a chreu disgyblion. Dros yr haf rwyf wedi cychwyn cydgerdded

gyda fy ffrindiau agosaf i'w hannog nhw i agosáu at y gwirionedd. Rydyn ni wedi bod yn gwneud hynny drwy ddarllen trwy'r Salmau a Luc. Ar ddechrau'r flwyddyn gap cefais fy nghyflwyno i lawer o wefannau gwahanol, yn cynnwys Safar, sydd yn annog cydgerdded, 1 i 1, gyda fy ffrindiau. Rydym yn edrych ar rannau gwahanol o gymeriad Duw, pwy yw Duw, haelioni Duw ac yn y blaen. Mae grŵp o fechgyn ifanc yn dod at ein gilydd bob nos Wener i weddio, trafod a dysgu mwy am Dduw.

Rwyf hefyd ynghyd â dau arweinydd arall wedi cychwyn rhedeg grŵp Alfa i bobl ifanc yn y Bala. Bob yn ail nos Sul rydym yn ymuno fel grŵp ieuenctid i wylio fideo ac ateb cwestiynau gwahanol am ffydd ac am lesu. Mae hyn wedi bod yn fendith mawr oherwydd mae dros 14 o bobl ifanc yn dod.

Bydd y sgiliau rwyf yn eu dysgu yma yn y Coleg a'r ffaith fy mod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o fudd mawr i mi ac yn gyfle gwych i'm siapio i fod yr athro yr hoffwn fod yn y dyfodol. Dwi'n gweddio y bydd y flwyddyn yma yn siapio fi'n fwy a mwy tebyg i lesu, ac y byddaf yn gallu dangos cariad llwyr yr Arglwydd i eraill. Credaf y byddaf yn elwa'n fawr iawn yn ystod y flwyddyn wrth aeddfedu fel arweinydd tîm, yn arwain mewn clybiau, cydweithio â chyd-weithwyr amrywiol a hefyd datblygu i fod yn fwy cyfiawn yn fy ngweithredoedd.

Mi lwyddais i dderbyn 2A a 2B yn fy lefel A. Fy mwriad, yn dilyn fy mlwyddyn gap, ydi cael astudio Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd gan geisio bod yn athro uwchradd Hanes un dydd. Eto, bydd y flwyddyn gap yn paratoi fi ar gyfer y gwaith prifysgol gan fod cyfle i helpu i gynllunio cyrsiau gwahanol a chreu amserlenni fy hun, sydd yn fwy na phwysig yn y byd go iawn i gadw popeth o dan reolaeth. Rwyf hefyd â chynlluniau i ymuno â'r Undeb Cristnogol yn y brifysgol yng Nghaerdydd i barhau gyda'r gwaith o wasanaethu lesu ac eraill ac i ffeindio teulu'r eglwys yno.

Fe fuaswn i wir yn gwerthfawrogi eich gweddïau dros fy mlwyddyn yn y Coleg. Dwi'n hynod o ddiolchgar am bob cefnogaeth.

Sylw o'r Seidin Yr Holl Saint

Gŵyl yr Holl Saint – All Hallows – y Cwmwl Tystion

Dyna ddaeth i ddilyn hwyl a halibalw'r 'tric or trît' diweddar. Ond oni bai eich bod chi'n mynychu eglwys y plwy neu'ch eglwys gatholig leol, prin y byddech chi wedi sylwi fod yr ŵyl hon wedi digwydd o gwbl.

Cofiwn am emyn Thomas Jones, Dinbych, a welir yn *Caneuon Ffydd*, sy'n ein cyfeirio ni at y bobl annwyl yma:

Mae cwmwl mawr o dystion
Yn iach yr ochr draw,
Y rhai fu yma'n ffyddlon
Ym myd y poen a'r braw;
Yn ôl eu traed dilynwn,
Trwy'n holl flinderau maith,
Ar air ein Harglwydd pwyswn
Nes dod i ben y daith.

Cwmni'r 'cwmwl tystion'

Bydd rhai sy'n edrych drwy lygaid cyfriniol yn cofio am y 'cwmwl tystion' ac yn credu eu bod rywsut gyda ni o hyd, er iddynt farw. Ydych chi'n credu mai fel yna mae ein perthynas ni â'r rhai ymadawedig? Ydych chi'n tybio'u bod nhw rywsut gyda ni o hyd?

Rhaid imi gyfaddef y byddwn i'n cael peth trafferth credu hynny. Ond dwi'm yn amau nad oes yna amryw sy'n credu fod pobl yr 'All Hallows', mewn rhyw ddull dirgel a chyfrin, yn parhau i fod yn bresennol gyda ni, er eu bod wedi huno. Os felly, ac o edrych ar y byd a'i broblemau cynyddol, go brin fod y bobl annwyl hyn yn cael gorffwys mewn tangnefedd yn y gwynfyd!

Cwmwl credu

Neu, tybed a ydych chi'n credu yr ersy eu ffydd, eu credo a'u ffyddlondeb oddi mewn i hen deulu'r ffydd i fod yn ddylanwad mawr arnom o hyd?

Credaf fod credu hynny wedi arwain llawer enwad, Cwrdd Chwarter, Henaduriaeth a Synod i lynu'n rhy hir at ogoniannau tybiedig y gorffennol, yn hytrach na theimlo'r rhyddid a ddaw yng nghwmni'r Ysbryd Glân i dorri tir newydd. Oni rybuddiodd Crist ni rhag dal ein dwylo ar yr arad a thremio 'nôl i'r gorffennol yn hytrach na thorri cwys unionsyth i'r dyfodol?

Rhannu

Os mai Un Eglwys sydd 'fry yn y nef neu ar y llawr' ac mai Un Eglwys oedd ar y cychwyn cyn i ddychymyg diwinyddol dyn gymylu darlun y ddyndoliaeth o Dduw, sut ydyn ni wedi mynd gymaint ar wahân, ac am wn i am barhau i fod felly yn hynny o ddyfodol sydd gennym ar ôl?

Gyfeillion, y mae'r ysgrifen ar y mur, y mae'r cwmwl tystion yn gweiddi'n groch arnom i ddeffro, i warchod ac i arloesi cyn bydd y trai wedi gafael ynom go iawn.

Colli cyfeiriad

Gwelaf ddau beth yn digwydd yn ein dyddiau ni sydd yn fy nhristâu yn ddirfawr. Gwelaf, yn y lle cyntaf, ryw fethiant i fentro i'r dyfodol â'r un ysbryd a mentergarwch ag a symbylodd y rhai fu yma yn ein heglwysi o'n blaenau. Gwelaf hefyd, yn ail, rywbeth amheus iawn yn digwydd yn yr eglwysi gyda dyrchafu un wedd ar bersonoliaeth arbennig y Drindod ar draul y Tad a'r Ysbryd Glân. Dyrchafwn Iesu Grist ar bob cyfrif, ond peidiwn â'i droi yn eilun yn hytrach nag yn Arglwydd, fel y gwna amryw erbyn hyn, gan droi'r eglwys yn gwlth i'r Mab ar draul y Tad a'r Ysbryd Glân.



Llun: Altmay Dinc, Unsplash

Coffa da gen i o'r Parch. Elwyn Edwards, Castle Square, Caernarfon, gynt, yn dechrau pob cyfarfod o'r Henaduriaeth ac yntau'n Llywydd gyda chyfieithiad Howel Harris o waith Thomas Ken:

I Dad y trugareddau i gyd
Rhown foliant, holl drigolion byd;
Llu'r nef moliennwch bawb ar gân –
Y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Cadw tŷ

Waldo a'n hanogodd 'i gadw tŷ mewn cwmwl tystion' ond mae yna wahaniaeth rhwng cadw'r tŷ yn amgueddfa i'r cwmwl tystion neu ei droi'n ganolfan genhadol i oes newydd.

Gwylw'n ni drannoeth Gŵyl yr Holl Saint rhag treulio gormod o'n hamser a'n hegni i warchod y gorffennol yn hytrach na chroesawu'r dyfodol yn hanes yr eglwys.

'Tric or trît' – hynny ydy o, ond peidiwn â chael ein twyllo fod ein doe yn fêl i gyd. Mae pob yfory, os Duw a'i myn, yn llawn bendithion, a thrysorau a thrîts ysbrydol amheuthun iawn. Dyna a wyddai'r cwmwl tystion amdanant.

Cadwch dŷ i'r Drindod ac i'r Holl Saint ar bob cyfrif. Ond cryfhewch y seiliau a gofalwch eu bod yn addas ar gyfer yr oes yr ydym yn byw ynddi.


Jim Clarke

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Yr Holl Saint

**Duw yn y Nefoedd,
Diolchwn i ti am yr holl bobl ffyddlon
a dilynodd yr Iesu a thyfodd dy Deyrnas yma ar y ddaear.
Cryfha ni i fod saint ein hamser,
sy'n cyhoeddi dy ogoniant bob dydd.
Dyma'n gweddi yn nerth yr Ysbryd Glân.
Amen.**

www.churchinwales.org.uk



Gofod newydd i'r eglwys – a'r gymuned!



'Mae hi wedi bod yn daith ffydd go iawn i ni fel eglwys,' eglura Peter wrth i ni gerdded trwy adeilad newydd yr eglwys sydd yn cael ei godi yng nghanol tref Penfro, 'ond rydym yn gweddïo y bydd yn cael ei gwblhau, rywsut, o fewn y flwyddyn nesaf.' Grŵp o ryw wyth deg o Gristnogion o bob oed sy'n byw yn nhref Penfro a'r ardal yw Eglwys y Bedyddwyr Mount Pleasant, ac maen nhw bellach wedi bod yn cwrdd mewn ysgol leol am bron i ddegawd. Ond nawr mae benthyciad gan Gronfa Adeiladu Bedyddwyr Cymru wedi galluogi eu prosiect adeiladu i gymryd cam mawr ymlaen, ac fe aethon ni i gael cip ar y to newydd yn ei le.

'Fe werthon ni hen adeilad y capel yn y dref yn y pen draw oherwydd nad oedd modd i ni gael y caniatâd angenrheidiol i'w addasu a'i wneud yn fwy addas ar gyfer anghenion cyfoes. Doedden ni ddim yn siŵr am y peth ac fe fuon ni'n gweddïo llawer yn ei gylch. Ond dangosodd Duw i ni mor glir beth oedd y ffordd ymlaen i fod pan werthon ni'r mans am £175k a daeth y safle yma ar werth am yr union swm hwnnw. Yna dywedodd y perchennog wrthym ei fod am iddo gael ei werthu i ni fel eglwys!

'Ers hynny, mae'r prosiect adeiladu wedi symud ymlaen gam wrth gam. Ac eithrio dau fenthyciad gan Gronfa Adeiladu'r Bedyddwyr, mae'r arian wedi dod oddi mewn i'r eglwys ei hun. Dros y pum mlynedd diwethaf, ni fu gweinidog gan yr eglwys, ond mae wedi tyfu a chadw'n driw i'w gweledigaeth wrth i'r aelodau roi yn hael i weld y prosiect adeiladu hwn yn dod i'w derfyn.

'Efallai y gall rhan o'r adeilad hwn ddod yn ganolfan chwarae i blant i'r gymuned ei defnyddio ganol wythnos, neu'n gaffi neu ryw fath arall o fenter gymdeithasol yn y dref – dydyn ni ddim yn gwbl siŵr eto. Ond rydyn ni eisiau i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n dda ac i bobl y tu allan i'r eglwys elwa o hyn hefyd. Felly, rydyn ni'n dal i weddïo am hynny ar hyn o bryd – pa ddrysau fydd Duw'n eu hagar, a beth yw'r anghenion. Mae gennym ddau i dri chan mil i fynd er mwyn talu am y gwaith mewnol a'r ffitiadau, felly cawn weld!'

Wrth i ni gerdded drwy'r adeilad ac i'r capel, mae'r to ar ffurf ton yn y môr eisoes yn creu ymdeimlad o ysgafnder a fydd yn ofod croesawgar i'r eglwys gyfarfod ynddo.

'Dyma'r union fath o beth mae Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru yn bodoli i'w gefnogi,' meddai Hugh Tribe, un o'i Gyfarwyddwyr. 'Rydym yn gorff hyd braich o'r Undeb a'i bwrpas yw cefnogi tystiolaeth y Bedyddwyr ledled Cymru, ac yn enwedig ar ochr cyfalaf ac adeiladau.'

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r benthyciadau cyfalaf sydd wedi'u rhoi i

eglwysi wedi cynnwys popeth – o faniau i waith cynnal a chadw sydd wir angen ei wneud, megis ailosod ffenestri, sicrhau mynediad i bobl anabl, gosod cyfleusterau toiledau modern, a mwy.

'Rydym yn falch iawn o allu helpu i gefnogi tystiolaeth yr eglwys yn y dref farchnad allweddol hon,' meddai Hugh, 'ac os yw eglwysi eraill am wneud cais am fenthyciad gennym, mae croeso mawr iddynt wneud hynny drwy gysylltu â swyddfa UBC.'

Yn ôl ym Mhenfro, mae'n galonogol meddwl bod Mount Pleasant wedi bodoli fel eglwys ers 1830, ac wedi gallu tystio i ffyddlondeb Duw ar hyd y blynyddoedd. Mae demograffeg yr eglwys wedi bod yn newid yn araf i fod yn gynulleidfa iau o ran oedran, a dros y blynyddoedd diwethaf maent wedi gweld oedolion ifanc yn cael eu bedyddio, teuluoedd newydd yn mynychu'r eglwys a gwaith yr ysgol Sul yn tyfu.

'Rydym i gyd yn ddisgwylgar ac yn gyffrous wrth i ni ddisgwyl wrth yr Arglwydd am y bennod nesaf,' meddai Peter.

Diolchgarwch Lewis

Mae Lewis, Nia Wyn Williams a Gwyn Rhydderch wedi cynhyrchu ffilm, *Gwasanaeth Diolchgarwch Lewis*, sy'n cyflwyno Dameg yr Heuwr a bod yn ddiolchgar.

Efallai y bydd o ddefnydd i chi neu gallwch ei rannu gyda'ch ysgolion lleol. Dyma'r ddolen: <https://youtu.be/mWypJLLkZ4>

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

6 Abraham – teulu a ffrindiau

Darllen: Genesis 11:27–32

Rhai blynyddoedd yn ôl cefais awydd mawr i geisio olrhain achau fy nheulu. Yn hytrach na gorfod teithio i lyfrgelloedd ac archifdai amrywiol, mae'r gwaith cychwynnol bellach yn weddol rwydd ar y cyfrifiadur. Cofiwch, petawn wedi cychwyn pan oedd Mam a Dad yn fyw, a phetai gennyf gof gwell, byddwn wedi ennill mwy o dir yn gynnar. Mae'n debyg fod rhai ohonoch chithau hefyd wedi profi'r awydd i olrhain hanes y teulu, ac yn fy achos i roedd colli fy rhieni yn galw am ryw fath o ymchwil i weld yn gliriach o ble y deuthum.

Mae hel achau yn gyffredin iawn yn y Beibl. Rydych i gyd yn gyfarwydd â'r rhestrau sydd yn Mathew 1 a Luc 3, ac efallai yn gyfarwydd â rhai o restrau Numeri, Cronicl ayyb. Wrth inni symud yn awr at hanes Abraham, yr hyn sy'n cael ei osod fel sail i'w hanes yw hanes ei deulu. Yn Genesis 10, mae cynnwys yr achau yn dangos undod dynoliaeth fel disgynyddion meibion Noa ar ôl y dilyw. Sonir am lawer o bobl, llwythau, ieithoedd, a chenhedloedd, 70 i gyd, ac felly'n gynrychioliadol o'r cyfan. Rwy'n credu bod y darn hwn, fel y mae eraill yn ei wneud, yn dysgu ein bod ni i gyd yn deulu. Yn Genesis 1:26–7, dywedir bod pawb wedi eu creu gan Dduw'r Creawdwr. Yn yr achau mae un llinell, un genedl y mae Duw yn gweithio'n arbennig drwyddi, ond nid ar draul y lleill i gyd. Yn hytrach, â'r ddynoliaeth gyfan wedi'i chynnwys yn y darn hwn, rydym yn dechrau gweld mai diben Duw wrth ddewis un genedl o blith y cenhedloedd gwasgaredig oedd i fendithio'r cyfan.

Mae Genesis 10:1 yn sôn am dri mab Noa: Sem, Ham, a Jaffeth. Yna, mae'r rhestr yn olrhain eu teuluoedd. Y mab olaf y cyfeirir ato yw Sem, sef 'tad' yr Hebrwyr (10:21), ac i'w linach ef y mae Abram yn perthyn. Fel y gwelwyd yr wythnos diwethaf, aeth Duw i berthynas gyfamodol ag Abraham er mwyn i'r holl genhedloedd gael eu bendithio trwyddo. O linach Abraham disgynnodd Iesu (Mathew 1:1 a Luc 3:34–8), a dyna sut y byddai'r addewid i fendithio'r cenhedloedd

yn cael ei gyflawni (Mathew 28:16–20). Trwy Iesu, mae maddeuant a bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu (Rhufeiniaid 10:13). Bywyd yn ei gyflawnder fydd hwn, sef yr hyn y daeth i'w roi (Ioan 10:10). Trwy ei ddilynwyr, roedd y neges hon i ledaenu i ddod â bendith i'r holl genhedloedd (Actau 13: 46–8).

O ran dealltwriaeth o achau, ac yn benodol o deulu yn yr Hen Destament, mae angen cadw un neu ddau o bethau mewn cof. Yn Genesis deillir teulu o fewn patrwm partriarchaidd, ac mae achau yn cael eu holrhain drwy un rhiant – y tad. O ran priodas, yr oedd hyn yn rhywbeth oedd i ddigwydd o fewn y teulu gan fod priodi pobl o'r tu allan yn cael ei wahardd. O ganlyniad roedd 'y teulu' yn medru bod yn eang iawn, gyda gwraig a phlant, gwragedd eraill a phlant, meibion a'u gwragedd, ac wryon a'u gwragedd.

Erbyn cyfnod y ffoi o'r Aifft, mae hyn yn ymestyn ymhellach, gyda'r teuluoedd bellach yn cynnwys gweision a phobl wedi eu gwahodd. Byddai sawl teulu gyda'i gilydd yn cael eu hadnabod fel 'llwyth', rhywbeth ddatblygodd ymhellach yng Nghanaan, ac yn awr yn cael eu hadnabod o ran eu perthynas ag un o'r 12 llwyth. Mae datblygiad pellach yn mywyd teulu erbyn cyfnod y brenhinoedd, gyda'r wladwriaeth yn trefnu pethau fel gofal cymdeithasol, yr economi a rhai gweithgareddau crefyddol, ac wrth gwrs, fel y nododd y proffwyd, roedd tuedd gan y brenin hyd yn oed i gymryd lle Duw fel 'Tad' y bobl.

Mae'r darlun o deulu yn y Testament Newydd hefyd yn amrywiol. Ceir ambell adran sy'n cyfeirio at eiriau Iesu yn sôn am 'frawd yn erbyn brawd, tad yn erbyn plant' (Marc 13:12–13); galwad i gasáu tad, mam (Luc 14:26); a galwad i adael y meirw i gladdu'r meirw yn achos un oedd am ddilyn y gyfraith Iddewig i gladdu ei dad (Mathew 8:21–2). Ond mae darlun arall hefyd, gyda'r galwad i anrhydeddu rhieni yn ymddangos bump o weithiau yn yr Efengylau ac, yn achos dwy o'r enghreifftiau, ymosodiad ar y rhai oedd am osod rhoddion crefyddol o flaen cyfrifoldebau teuluol (Mathew 15:4–7; Marc 7:9–12). Yn wir, drwy'r Testament

Newydd, mae gwerth y cartref a'r teulu yn anghyffredin o bwysig. Sylwch ar yr enghreifftiau o bobl yn cael eu hiacháu: ni wahoddwyd y rhain i ddod yn ddilynwyr yn gymaint â'u hanfon adref.

Mae'n amlwg fod lle'r teulu o fewn teulu Duw yn bwysig, ac mae'n ddiddorol sylwi mai teuluoedd oedd hanfod y canolfannau addoli cyntaf. Ond mae'n amlwg fod geiriau Iesu a dysgeidiaeth yr apostolion am bwysleisio nad oedd teulu estynedig yr Eglwys ddim mwyach yn seiliedig ar berthynas deuluol, ond yn hytrach ar fedd ffydd. Os oedd rhai'n deall galwad radical Iesu i fod yn ddilynwyr fel rhywbeth oedd yn gwrthdaro â lle'r teulu mewn Iddewiaeth, nid felly yn eich hachos ni. Er ei bod yn wir bellach nad i bwy rydych yn perthyn o ran eich achau sy'n eich gwneud yn aelod o deulu Duw, eto, ni ddylid gosod anrhydeddu Tad teulu'r Eglwys o flaen anrhydeddu tad a mam naturiol.

1. Er bod ein deall creiddiol o deulu yn glir yn y Beibl (Mathew 19:5), mae'r darlun o'r teulu ynddo'n un sy'n datblygu wrth i gyd-destun pobl Dduw newid. Trafodwch sut y gall hyn fod o gymorth wrth i bobl heddiw ddeall y syniad o deulu mewn ffyrdd gwahanol.
2. Mae'r Beibl yn ein disgrifio fel 'plant Abraham'. Wrth feddwl am hanes ein teulu Cristnogol, beth sy'n ein diogelu ni?
3. Yn y Testament Newydd mae'r Eglwys yn cael ei disgrifio fel teulu, ac yn aml, teuluoedd oedd yr eglwysi cyntaf. Sut fyddwch chi'n gofalu am y teulu yn eich eglwys chi, ac yn arbennig yn cefnogi teuluoedd?
4. Yng Nghyffes Ffydd y Methodistiaid (Pennod 36), ceir anogaeth i sicrhau ffyddlondeb i gymuned yr eglwys, ond yr un pryd pwysleisir na ddylai perthyn i'r teulu hwn ddim dirymu yr un berthynas naturiol; hynny yw, nid yw'r eglwys i drefnu ei bywyd ar draul bywydau teuluoedd. Sut mae diogelu'r balans wrth feddwl am y galwadau sydd ar arweinwyr/aelodau eglwysig?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 6 Tachwedd am 7.30yp

Huw Edwards fydd yn arwain rhaglen arbennig i ddathlu canrif a hanner ers sefydlu Capel y Tabernacl, Treforys. Daw'r canu mawl o gymanfa arbennig yn y capel gyda Huw Tregelles Williams wrth yr organ a'r Parch. Robert Nicholls yn arwain y canu

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 6 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp

Elin Manahan Thomas yn trafod cyfraniad rhai o gerddorion clasurol Cymru i'n hemynyddiaeth

Sul, 6 Tachwedd, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Gwenda Richards, Caernarfon

Cofio dros Heddwch a Chymod

Mae Sul y Cofio yn nesáu ar adeg pan fo rhyfel yn Ewrop yn y penawdau, ac rydym i gyd yn ymwybodol o'r dinistr a'r anhrefn a achosir gan ryfel. Rydym yn llai ymwybodol o wrthdaro parhaus mewn mannau eraill – er enghraifft yn Ethiopia, Yemen ac Afghanistan – ac mae'r rhyfeloedd hyn hefyd yn cael effaith ddinistriol ar fywydau pobl yn eu miloedd.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig gofyn beth yn union rydym yn ei gofio ar Sul y Cofio a pham. Mae ffocws y pabi coch yn tueddu i fod ar filwyr Prydeinig sydd wedi colli eu bywydau ar faes y gad. Mae hyn yn bwysig ynddo'i hun ac mae'n gymwys ein bod yn galaru am golli'r rhai a fu farw felly. Ond mae gwisgo pabi gwyn yn dangos parch tuag at holl ddiodeffwyr rhyfel, yn cynnwys unigolion, teuluoedd a phlant ar bob ochr. Mae hefyd yn cynrychioli ymrwymiad dwfn i weithio dros heddwch



– tuag at fyd lle mae gwrthdaro'n cael ei ddatrys mewn ffyrdd di-drais.

Fel Cristnogion gelwir arnom i weithio dros heddwch a chymod yn ein bywydau ein hunain. Gallwch ddangos eich ymrwymiad

i heddwch eleni drwy wisgo naill ai pabi gwyn ar ei ben ei hun neu babi gwyn ochr yn ochr â'r un coch traddodiadol. Beth am ysgrifennu at eich Cyngor Tref a gofyn a fedrwrch chi neu'ch eglwys osod torch wen neu un goch a gwyn wrth eich cofeb ryfel leol?

Ar adeg pan fo gan ryfel le amlwg yn y newyddion, mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond trwy drafod a deialog y daw heddwch parhaol. Cofiw'n hefyd am y dynion a'r merched hynny sydd yn gwrthod ymladd oherwydd eu credoau a'u hargyhoeddiadau, ac sy'n dioddef o ganlyniad.

Mae pabis gwynion ar gael trwy [Gymdeithas y Cymod](#) yng Nghymru (£1 y pabi, £10 am fwndel o 10, £20 am 25 pabi), yn ogystal â thafleini A5 yn egluro arwyddocâd y pabi gwyn. Gallwch eu harchebu drwy e-bostio jane.heddwch3@gmail.com neu drwy ffonio 077200 87132.

Jane Harries
Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod

Gwefan gobaith.cymru yn chwilio am emynau gwreiddiol yn y Gymraeg



Ers sefydlu gwefan www.gobaith.cymru dros 20 mlynedd yn ôl bellach, daeth yn ffynhonnell bwysig i storio a rhannu geiriau emynau Cymraeg, gan gynnwys emynau traddodiadol cyfarwydd, a llawer iawn o emynau a chytganau cyfoes sy'n gyfieithiadau o emynau diweddar yn Saesneg. Mae'r emynau hyn wedi eu hawdurdodi gennym drwy sicrhau caniatâd gan yr awduron / cyhoeddwr gwreiddiol, ac felly'n cydymffurfio â rheolau hawlfraint a thrwyddedu eglwysig CCLI (Christian Copyright Licensing International). Mae'r emynau hyn i gyd yno fel fersiynau testun a hefyd fel ffeiliau PowerPoint i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Erbyn hyn mae dros 1,500 o emynau ar y wefan.

Rydym yn ymwybodol fod yna emynau gwreiddiol eraill yn cael eu cyfansoddi yng Nghymru, weithiau mewn ymateb i gystadleuaeth mewn eisteddfod, neu mewn ymateb i destun neu bwnc arbennig. Weithiau, cyhoeddir emyn mewn cylchgrawn neu bapur enwadol, ond yn aml aiff y geiriau yn angof yn fuan.

Aeth dros 20 mlynedd heibio ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, sy'n golygu nad yw unrhyw emyn a gyhoeddwyd ers hynny mewn llyfr emynau. O'r herwydd, mae gwefan gobaith.cymru yn awyddus i ddiogelu'r emynau hyn, a'u rhannu â chynulleidfa

ehangach. O'u gosod ar y wefan, mae modd i gynulleidfaoedd ledled Cymru wedyn gael mynediad atynt.

Os gwyddoch am eiriau emynau sydd wedi eu creu yn wreiddiol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, neu os ydych yn ymwybodol o eiriau emynau da nad ydynt yn *Caneuon Ffydd*, mae croeso i chi yrru'r rhain i mewn atom i'w hystyried.

Os ydych yn barod i wneud hynny, rydym yn gofyn i chi wneud pedwar peth wrth yrru'r emynau atom:

1. Cynnwys copi o'r geiriau wedi eu teipio'n electronig, â'r emyn wedi ei osod yn y patrwm/diwyg cywir.
2. Cadarnhau'r mesur neu'r dôn y gellir canu'r emyn arni.
3. Rhoi enw llawn awdur y geiriau er mwyn cydnabod yr enw o dan yr emyn.

4. Cadarnhau bod gennych yr hawl i roi / rannu'r geiriau ar y wefan. Os mai chi yw'r awdur, bydd cadarnhad o hynny'n ddigonol. Os ydych yn gyrru geiriau emyn gan rywun arall neu ar ran rhywun arall, gofynnwn i chi sicrhau caniatâd yr awdur cyn gwneud hynny.

Byddwn ninnau wedyn yn rhoi'r geiriau ar y wefan, mewn ffeil destun ac mewn ffeil PowerPoint. Noder bod gennym hawl golygyddol hefyd i beidio â chynnwys pob emyn a fydd yn cael ei yrru atom os nad ydym yn credu bod yr emyn yn gweddu neu'n gywir.

Dylid anfon unrhyw emyn at: aled@ysgolsul.com er mwyn ei gyflwyno i'r panel golygyddol.

Aled Davies
Cyngor yr Ysgolion Sul



Cyfieithiadau Cyfoes



Caneuon Gwreiddiol

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Atgyfodiad

Emyn 543: 'Hwn ydyw'r dydd'

Darlenniad: Salm 17:1-9

Gwedd

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn wyt yn anfon dy Ysbryd yn enw Iesu i'r byd, anfon dy Ysbryd drachefn i'n hyfforddi, i'n goleuo, i'n galluogi i gredu dy air, ac i osod ein holl ymddiriedaeth arnat. Bywha ni, o Arglwydd. Amen.

Darlenniad: Luc 20:27-40 – 'Holi ynglŷn â'r Atgyfodiad'

Cyflwyniad

Pe byddem am gynnal *vox pop* am gredoau pobl am beth fydd yn digwydd i ni wedi i ni farw, fe fyddem yn canfod myrdd o syniadau annelwig. Yng ngwerin-grefydd ein gwlad bydd y credoau a leisir yn gymysgwch o amryw o syniadau a gasglwyd o bob math o ffynonellau.

I'r rhai sy'n argyhoeddedig mai bywyd materol yw'r cyfan sydd, darford a wnawn gyda'n hanadl olaf, frau. Bydd eraill yn gobeithio mewn ffurf ar bantheistiaeth, neu o grefydd yr Oes Newydd, sy'n awgrymu ein bod yn parhau i fodoli mewn hoff goeden, mewn seren dlos, mewn awel fwyn, neu ddeilen werdd. Rhydd eraill eu gobaith am barhad drwy atgofion y rhai sy'n annwyl i ni. Efallai mai parhau mewn rhyw ffurf ysbrydol annelwig a wnawn, medd eraill. 'Mae'n siŵr y bydd y person yr ydym yn ffarwelio ag ef neu hi yn sicr o fod yn ein gweld ac yn edrych ar ein holau,' medd eraill.

Er bod gan Iddewiaeth yng nghyfnod Iesu gred mewn atgyfodiad y cyfiawn ar ddiwedd amser (Ioan 11:23), mae Cristnogion yn credu y daeth 'atgyfodiad y corff' yn realiti drwy atgyfodiad Iesu Grist ei hun oddi wrth y meirw, yn 'flaenffwyth' y rhai sy'n 'huno'.

Emyn: 'Myfi yw'r Atgyfodiad mawr'

Cefndir

Dylid nodi tri pheth cyn sylwi'n fanylach ar yr adnodau. Yn gyntaf, yn naratif Luc o Efengyl Iesu mae'r 'wythnos fawr', wythnos olaf ei weinidogaeth ddaearol, gyhoeddus, eisoes wedi cychwyn. Dechreuodd pan orymdeithiodd i mewn i Jerwsalem i gymeradwyaeth y dorf a waeddai eu Hosanna (Luc 19:28 ymlaen). Uchafbwynt yr wythnos fyddai ei groeshoeliad a'i atgyfodiad ar fore'r trydydd dydd.

Yn ail, yn efengyl Luc, daw'r gwrthwynebiad i Iesu yn fwyfwy amlwg

wrth i'r prif offeiriaid, yr ysgrifenyddion a'r henuriaid herio a gwrthwynebu ei awdurdod. Anfonwyd 'ysbiwyr' i geisio'i faglu (Luc 20:20). Tenantiaid anffyddlon oedd y sefydliad crefyddol Iddewig, yn ôl Iesu (20:9-17), sefydliad na allai ateb ei ymholiad am ei Arglwyddiaeth nac ymateb yn briodol i'r Meseia (20:41-7).

Yn y cyd-destun hwn, caiff yr Atgyfodiad mawr ei hun ei groesholi am yr atgyfodiad!

Gwawd

Ymateb a wna Iesu i ymholiad gwawdlyd gan y Sadwceaid am sefyllfa ddychmygol, chwerthinlyd. Plaid ddylanwadol nad oedd yn credu mewn atgyfodiad oedd y Sadwceaid; doedden nhw ddim chwaith yn derbyn unrhyw lyfrau fel ysgrifurau heblaw Pum Llyfr Moses.

Yn eu hymdrech i faglu Iesu, dechreuon nhw gyda chwestiwn am ddeddfau tebyg i Deuteronomium 25:5. Gwyddent fod trafodaeth fyw iawn ymhlith yr athrawon a'r ysgrifenyddion (Mishna, Yebanith 1:1-4, 2:2). Gwyddai'r Sadwceaid fod yr athrawon yn ceisio dirnad yr ateb i gwestiwn diwinyddol a'u blinai. Er enghraifft, os priodai gwraig, yn ei thro, saith brawd a fu farw'n anhhymig, gwraig i bwy oedd hi go iawn? Cymryd trafodaeth boblogaidd a'i hymestyn i fyd yr Atgyfodiad a wnaeth y Sadwceaid. Lloriodd ateb Iesu hwy fel na feiddient ei holi mwyach! (adn. 40)

Daearol

Gan osgoi'r fagl a osodwyd iddo, dechreuodd Iesu eu hateb drwy eu sicrhau mai rhywbeth sy'n perthyn i 'blant y byd hwn', i'r byd daearol, presennol hwn, yw perthynas a phriodas, ond wedi'r atgyfodiad na fyddai lle nac angen am briodas.

Cyflwr newydd

Yn ail, mae'n eu sicrhau bod y fath gyflwr ag 'atgyfodiad' yn bod. Nid sôn am ddadebru, neu fyw mewn gwynfyd ysbrydol, byw mewn rhyw fyd annelwig a ddaw, yw credu yn yr atgyfodiad. Credwn fel Cristnogion yr 'atgyfodir' ein cyrrff iselwael yn nydd yr atgyfodiad ac y cawn gartrefu mewn corff gogoneddus mewn byd gogoneddus lle mae cyfiawnder yn cartrefu!

Awtomatig

Nid rhywbeth awtomatig yw meddiannu, na chael ein meddiannu, gan rym yr atgyfodiad. Perthyn hwnnw i'r 'rhai a gafwyd yn deilwng i gyrraedd y byd hwnnw ac atgyfodiad y meirw'. Perthyn hwn i

'blant Duw', sydd drwy weithgarwch Duw yn ein mabwysiadu a'n gogoneddu trwy ei ras. Credwn fel Cristnogion nad oes unrhyw un, pwy bynnag ydym, yn deilwng ynom ein hunain i gael mynediad i fyd yr atgyfodiad. Credwn, fodd bynnag, fod Iesu wedi concro marwolaeth ei hun, ei fod wedi mynd o'n blaen i baratoi lle i ni, ac mai drwy ffydd yn ei allu, ei drugaredd a'i fuddugoliaeth ef, y cawn fynediad gogoneddus i'r byd hwn.

Angylion

Nid yw Iesu'n dweud y byddwn yn yr atgyfodiad yn troi i fod yn angylion ac ni ddywed chwaith fod y rhai a aeth o'n blaenau yn angylion. Beth a ddywed Iesu am gyflwr y rhai a atgyfodwyd yw bod eu cyflwr yn ogoneddus, yn debyg i angylion na 'allant farw mwyach'.

Ysgrifur

Lloriwyd y Sadwceaid oedd yn credu ym Mhum Llyfr Moses gan eiriau Moses ei hun. Cyfarchodd Moses yr Arglwydd, meddai Iesu, nid fel un a fu yn Dduw i Abraham, Isaac a Jacob, ond fel yr hwn sydd yn y presennol yn Dduw i Abraham, Isaac a Jacob: 'Nid Duw'r meirw yw ef, ond y rhai byw, oherwydd y mae pawb yn fyw iddo ef.' (adn. 38)

Byw ynddo ef

Ynddo ef, drwy Iesu Grist, trwy waith mewnol a dirgel yr Ysbryd Glân, down ninnau'n etifeddion, drwy ras, o'r gobaith rhyfeddol, unigryw a thrawsnewidiol hwn. Yn y deyrnas sydd i ddod fe fydd parhad a gwahaniaeth. Bydd parhad am y byddwn yn parhau i fod yn 'ni', yn 'fi', ac yn 'ti', ac nid yn ddiferyn ysbrydol a lyncwyd gan dragwyddoldeb. Bydd gwahaniaeth gan y bydd yr hyn a heuwyd mewn llygredigaeth yn cael ei godi mewn anllygredigaeth, yr hyn a heuwyd mewn gwaradwydd yn cael ei godi mewn gogoniant a'r hyn sy'n wan ei godi mewn nerth (1 Corinthiaid 15:42 ymlaen).

Gwedd

Arglwydd, yr wyt yn barhaus yn ein synnu, yn ein synnu oherwydd dy ffyddlondeb, dy allu, a'th ras yn Iesu Grist. Diolch dy fod wedi tynnu 'colyn angau', sef ein gwrthryfel i'th erbyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Ac yr wyt yn barhaus yn ein gwahodd i ryfeddu at y trugaredd a'r gobaith hwnnw sy'n cael ei estyn i'th blant, drwy Iesu Grist. Diolch felly nad i anobaith y cawsom ein galw, ond i obaith nad yw ein llafur byth yn ofer yn yr Arglwydd. I ti bo'r moliant a'r diolch yn oes oesoedd. Amen.

Emyn 547: 'Mi wn fod fy mhrynwr yn fyw'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)